# WYTHNOS NATUR CYMRU
## 29 Mehefin - 7 Gorffennaf 2024

## DATHLU NATUR



Dilynwch ni

#WythnosNaturCymru

**Pecyn Briffio Partneriaid**

# CROESO I WYTHNOS NATUR CYMRU 2024!

## Croeso i Wythnos Natur Cymru, dathliad blynyddol o fyd natur sy'n arddangos cynefinoedd a rhywogaethau gwych Cymru.

Mae Wythnos Natur Cymru ar gyfer pawb yng Nghymru. Mae'n wahoddiad i bobl o bob cefndir, gan eu hannog i archwilio ac ymgysylltu â byd natur yn eu milltir sgwâr. Rydym yn gwybod y gall cyswllt â natur, drwy eich cymorth chi, ysbrydoli ymrwymiad gydol oes a ffurfio mudiad o bobl o'r un anian sy'n gweithredu dros natur ledled Cymru.

Mae Wythnos Natur Cymru'n ddathliad o natur Cymru ac mae'n gyfle gwych hefyd i ledaenu'r gair am y gweithgareddau a'r ymgyrchoedd mae eich sefydliad yn eu gwneud i ddiogelu ein natur werthfawr.

Mae'r pecyn briffio hwn yn rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gymryd rhan yn Wythnos Natur Cymru.

Diolch am eich cefnogaeth. Edrychwn ymlaen at weld mwy o bobl nag erioed yn cymryd rhan yn eich digwyddiadau yn ystod Wythnos Natur Cymru 2024!

**Sean McHugh**
**Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**


## Sut allwch chi helpu

Fel partner gwerthfawr Wythnos Natur Cymru, fe'ch gwahoddir i gynllunio a chynnal digwyddiadau yn ystod yr wythnos natur. Yn ogystal â hynny, byddwn yn cyfeirio pobl at eich gwefan fel y gallant ddysgu drostynt eu hunain am yr holl waith anhygoel rydych chi'n ei wneud a'u galluogi i gael mynediad at adnoddau a digwyddiadau rydych chi'n eu cynnig trwy gydol y flwyddyn.

Felly rydym wedi creu cyfres o negeseuon cyfryngau cymdeithasol i chi eu cyhoeddi i ddangos eich cefnogaeth i Wythnos Natur Cymru, ac nid oes angen unrhyw olygu arnynt.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech eu defnyddio fel rhan o'ch allbwn cyfryngau cymdeithasol bob dydd, gan fod eich rhwydwaith o ddilynwyr yn amhrisiadwy ar gyfer ymgysylltu â natur yn ystod Wythnos Natur Cymru.

Gyda'n gilydd, gall ein sefydliadau partner gyflawni mwy ar gyfer Wythnos Natur Cymru ac rydym yn diolch i chi am eich cefnogaeth.







### 1. Eich Adnoddau Cyfryngau Cymdeithasol

Mae'r pecyn briffio hwn yn darparu graffeg cyfryngau cymdeithasol i chi ei chyhoeddi fel postiad, wedi'i ategu gan eich neges unigol.

I lawrlwytho'r adnoddau cyfryngau cymdeithasol hyn, ewch i'n tudalen adnoddau isod.

**Lawrlwytho yma**

Gyda'ch help chi, gallwn ddathlu natur a lledaenu'r gair am y prosiectau natur gwych y mae eich sefydliad neu'ch prosiect yn eu cyflawni ar hyd a lled Cymru.

Rydym ar y platfformau canlynol:

- **Instagram**
- **Facebook**
- **Twitter/X**
- **Gwefan Wythnos Natur Cymru**
- **E-bostiwch ni**

Felly, cadwch lygad amdanom ni ac os yn bosibl dilynwch, rhannwch a hoffwch, byddem yn ddiolchgar iawn.


## Sut allwch chi helpu

### 2. Hashnod #WythnosNatur-Cymru

Byddem yn ddiolchgar hefyd pe gallech ddefnyddio'r hashnod #WythnosNaturCymru ar eich postiadau fel y gallwn godi ymwybyddiaeth o Wythnos Natur Cymru ar draws platfformau cyfryngau cymdeithasol. Bydd hyn yn ein galluogi hefyd i fonitro nifer y bobl sy'n manteisio ar weithgareddau cyfryngau cymdeithasol Wythnos Natur Cymru a'u heffeithiolrwydd trwy rannu a hoffi.

### 3. Dod yn bartner Wythnos Natur Cymru

Ydych chi wedi ystyried dod yn bartner Wythnos Natur Cymru? Rhowch wybod i ni os yw eich sefydliad neu brosiect yn cymryd rhan a byddwn yn cynnwys eich logo a dolen i'ch gwefan ar ein tudalen partneriaid.



### 4. Cyfathrebu Canolog

Bydd Wythnos Natur Cymru'n cyhoeddi postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn seiliedig ar ein prif negeseuon ac yn rhyngweithio â phostiadau partneriaid. Byddwn hefyd yn cyfeirio pobl at ddigwyddiadau partneriaid sy'n digwydd yn ystod yr wythnos. Bydd hyn yn atgyfnerthu ac yn cynorthwyo eich gweithgarwch hyrwyddo.

### 5. Ychwanegwch Eich Digwyddiad i'n Tudalen We Digwyddiadau

I fod yn rhan o Wythnos Natur Cymru mae angen i chi drefnu gweithgaredd neu ddigwyddiad lle gall pobl ddathlu natur! Mae rhaglen ddigwyddiadau eich sefydliad neu brosiect yn arbennig o addas gan ei bod yn cwmpasu amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a'r cyfan sydd angen i chi ei wneud yw dewis digwyddiad(au) sy'n digwydd rhwng 29 Mehefin a 7 Gorffennaf.

Mae gennym dudalen we bwrpasol:

https://www.biodiversitywales.org.uk/Wythnos-Natur-Cymru

Mae eich cydlynydd Partneriaeth Natur Leol yno hefyd i gynnig cymorth unrhyw adeg o'r flwyddyn nid yn ystod Wythnos Natur Cymru'n unig.

# DIOLCH!

PARTNERIAETHAU NATUR LLEOL
LOCAL NATURE PARTNERSHIPS
CYMRU

Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
Wales Biodiversity Partnership

WCVA CGGC

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Mae Wythnos Natur Cymru yn bosibl diolch i sefydliadau sy'n gyfeillgar i natur sy'n cynnal digwyddiadau a thrwy gyfranogiad Partneriaethau Natur Lleol, cymunedau, ysgolion, busnesau ac unigolion. Mae ar gyfer pawb yng Nghymru.